

**202- Rhif (Cy. )**

**202- No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A465  
(Bryn-mawr, Blaenau Gwent i  
Lanbaiden, Sir Fynwy) (Terfyn  
Cyflymder 50 mya) 202-

The A465 Trunk Road (Brynmawr,  
Blaenau Gwent to Glanbaiden,  
Monmouthshire) (50 mph Speed  
Limit) Order 202-

*Gwnaed* \*\*\* 202-

*Made* \*\*\* 202-

*Yn dod i rym* \*\*\* 202-

*Coming into force* \*\*\* 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A465, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A465 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Gwent Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

**Enwi a Chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Bryn-mawr, Blaenau Gwent i Lanbaiden, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 202- a daw i rym ar \*\*\*\* 202-.

**Title and Commencement**

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Brynmawr, Blaenau Gwent to Glanbaiden, Monmouthshire) (50 mph Speed Limit) Order 202- and it comes into force on \*\*\*\* 202-.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn—  
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

**Interpretation**

2. In this Order—  
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.  
(2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802.

(1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.  
(2) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

202-

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road;

### Restriction

**3.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

202-

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

## YR ATODLEN

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A465 o bwynt 797 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod hyd at bwynt 230 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden am bellter o 8229 o fetrau.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A465 o bwynt 230 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden hyd at bwynt 223 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod am bellter o 7725 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 15 metr i'r de-orllewin o Gylchfan Main Road am gyfanswm pellter o 623 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o bwynt 85 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gefn y trwyniad uno hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 255 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 6 metr i'r gorllewin o'r trwyniad gwyro am gyfanswm pellter o 286 o fetrau.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o Gylchfan Bryn-mawr hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 246 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Saleyard o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o'r Gyffordd am gyfanswm pellter o 440 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd Saleyard yr A465 o bwynt 40 metr i'r dwyrain o ddechrau llain galed fewnol yr A465 am gyfanswm pellter o 294 o fetrau.

Y darn o dapr ymadael tua'r gorllewin Cyffordd Saleyard yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o Gyffordd Saleyard Station Road am gyfanswm pellter o 115 o fetrau.

Y darn o dapr ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Saleyard yr A465 o bwynt 20 metr i'r gogledd o Gyffordd Saleyard Station Road hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 126 o fetrau.

Y darn o dapr ymrannu ategol tua'r dwyrain Cyffordd Gilwern yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o Gyffordd Saleyard Station Road am gyfanswm pellter o 282 o fetrau.

## SCHEDULE

The length of the A465 eastbound carriageway from a point 797 metres north west from the centre point of Hafod Footbridge to a point 230 metres in an easterly direction from the centre point of Glanbaiden Underbridge for a distance of 8229 metres.

The length of the A465 westbound carriageway from a point 230 metres in an easterly direction from the centre point of Glanbaiden Underbridge to a point 223 metres north west from the centre point of Hafod Footbridge for a distance of 7725 metres.

The length of A465 Brynmawr Junction eastbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 15 metres south west from the Main Road Roundabout for a total distance of 623 metres.

The length of A465 Brynmawr Junction eastbound entry slip road from a point 85 metres north west from the back of the merge nose to the A465 carriageway for a total distance of 255 metres.

The length of A465 Brynmawr Junction westbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 6 metres west of diverge nose for a total distance of 286 metres.

The full length of A465 Brynmawr Junction westbound entry slip road from Brynmawr Roundabout to the A465 carriageway for a total distance of 246 metres.

The length of Saleyard Junction eastbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 20 metres south west from the Junction for a total distance of 440 metres.

The length of A465 Saleyard Junction eastbound entry slip road from a point 40 metres east of the start of the nearside hardshoulder to the A465 for a total distance of 294 metres.

The length of A465 Saleyard Junction westbound exit taper from the A465 carriageway to a point 20 metres north of the Station Road Saleyard Junction for a total distance of 115 metres.

The length of A465 Saleyard Junction westbound entry taper from a point 20 metres north of the Station Road Saleyard Junction to the A465 carriageway for a total distance of 126 metres.

The length of A465 Gilwern Junction eastbound auxiliary diverge taper from the A465 carriageway to a point 21 metres south west of the Station Road Saleyard Junction for a total distance of 282 metres.

Y darn o dapr uno ategol tua'r dwyrain Cyffordd Gilwern yr A465 o bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o Gyffordd Saleyard Station Road hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 157 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Glanbaiden yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 63 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Glanbaiden am gyfanswm pellter o 398 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Glanbaiden yr A465 o bwynt 12 metr i'r gorllewin o Gylchfan Glanbaiden hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 448 o fetrau.

The length of A465 Gilwern Junction eastbound auxiliary merge taper from a point 21 metres south west of the Station Road Saleyard Junction to the A465 carriageway for a total distance of 157 metres.

The length of A465 Glanbaiden Junction eastbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 63 metres west of Glanbaiden Roundabout for a total distance of 398 metres.

The length of A465 Glanbaiden Junction westbound entry slip road from a point 12 metres west of Glanbaiden Roundabout to the A465 carriageway for a total distance of 448 metres.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465  
(BRYN-MAWR, BLAENAU GWENT I  
LANBAIDEN, SIR FYNWY) (TERFYN  
CYFLYMDER 50 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 50 mya ar y darnau o gefnffordd yr A465 rhwng Bryn-mawr, Blaenau Gwent a Glanbaiden, Sir Fynwy ac a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Mae cyflwyno'r terfyn cyflymder 50 mya er budd diogelwch ar y ffordd ac mae'n diwallu dyluniad peirianyddol y ffordd sydd wedi ei gwella. Bwriad aliniad newydd y ffordd yw lleihau effaith y ffordd ar safleoedd sydd wedi eu dynodi'n amgylcheddol sensitif, ac mae'n cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, yn benodol Cyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 10 Mehefin 2021, ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy NP23 6XB.

Cyngor Sir Fynwy, Siop Un Stop, Neuadd y Farchnad, Cross Street, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5HD.

Llyfrgell Bryn-mawr, Sgwâr y Farchnad, Bryn-mawr, NP23 4AJ.

Swyddfeydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.

Neu, gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1457286.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i [Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru](mailto:Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru) neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 1 Gorffennaf 2021.

**THE A465 TRUNK ROAD (BRYNMAWR,  
BLAENAU GWENT TO GLANBAIDEN,  
MONMOUTHSHIRE) (50 MPH SPEED LIMIT)  
ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 50 mph speed limit on the lengths of the A465 trunk road between Brynmawr, Blaenau Gwent and Glanbaiden, Monmouthshire and described in the Schedule to this Notice.

The introduction of the 50 mph speed limit is in the interest of road safety and meets the engineering design of the improved road. The new road alignment is designed to reduce the road's impact on environmentally sensitive designated sites and complies with environmental legislation specifically the Habitats Directive 92/43/EC.

During a period of 21 days from 10 June 2021, a copy of the proposed Order, plan, Statement of Reasons for making the Order may be inspected during normal opening hours at:

Blaenau Gwent County Borough Council, Municipal Offices, Civic Centre, Ebbw Vale NP23 6XB.

Monmouthshire County Council, One Stop Shop, Market Hall, Cross Street, Abergavenny, Monmouthshire NP7 5HD.

Brynmawr Library, Market Square, Brynmawr NP23 4AJ.

Brecon Beacons National Park Authority, Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys LD3 7HP.

Or can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1457286.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to [Transport.OrdersBranch@gov.wales](mailto:Transport.OrdersBranch@gov.wales) or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 1 July 2021.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process of consulting we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

#### YR ATODLEN

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A465 o bwynt 797 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod hyd at bwynt 230 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden am bellter o 8229 o fetrau.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A465 o bwynt 230 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden hyd at bwynt 223 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod am bellter o 7725 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 15 metr i'r de-orllewin o Gylchfan Main Road am gyfanswm pellter o 623 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o bwynt 85 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gefn y trwyniad uno hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 255 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 6 metr i'r gorllewin o'r trwyniad gwyro am gyfanswm pellter o 286 o fetrau.

your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

#### SCHEDULE

The length of the A465 eastbound carriageway from a point 797 metres north west from the centre point of Hafod Footbridge to a point 230 metres in an easterly direction from the centre point of Glanbaiden Underbridge for a distance of 8229 metres.

The length of the A465 westbound carriageway from a point 230 metres in an easterly direction from the centre point of Glanbaiden Underbridge to a point 223 metres north west from the centre point of Hafod Footbridge for a distance of 7725 metres.

The length of A465 Brynmawr Junction eastbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 15 metres south west from the Main Road Roundabout for a total distance of 623 metres.

The length of A465 Brynmawr Junction eastbound entry slip road from a point 85 metres north west from the back of the merge nose to the A465 carriageway for a total distance of 255 metres.

The length of A465 Brynmawr Junction westbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 6 metres west of diverge nose for a total distance of 286 metres.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Bryn-mawr yr A465 o Gylchfan Bryn-mawr hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 246 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Saleyard o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o'r Gyffordd am gyfanswm pellter o 440 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd Saleyard yr A465 o bwynt 40 metr i'r dwyrain o ddechrau llain galed fewnol yr A465 am gyfanswm pellter o 294 o fetrau.

Y darn o dapr ymadael tua'r gorllewin Cyffordd Saleyard yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o Gyffordd Saleyard Station Road am gyfanswm pellter o 115 o fetrau.

Y darn o dapr ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Saleyard yr A465 o bwynt 20 metr i'r gogledd o Gyffordd Saleyard Station Road hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 126 o fetrau.

Y darn o dapr ymrannu ategol tua'r dwyrain Cyffordd Gilwern yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o Gyffordd Saleyard Station Road am gyfanswm pellter o 282 o fetrau.

Y darn o dapr uno ategol tua'r dwyrain Cyffordd Gilwern yr A465 o bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o Gyffordd Saleyard Station Road hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 157 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Glanbaiden yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 63 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Glanbaiden am gyfanswm pellter o 398 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Glanbaiden yr A465 o bwynt 12 metr i'r gorllewin o Gylchfan Glanbaiden hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 448 o fetrau.

The full length of A465 Brynmawr Junction westbound entry slip road from Brynmawr Roundabout to the A465 carriageway for a total distance of 246 metres.

The length of Saleyard Junction eastbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 20 metres south west from the Junction for a total distance of 440 metres.

The length of A465 Saleyard Junction eastbound entry slip road from a point 40 metres east of the start of the nearside hardshoulder to the A465 for a total distance of 294 metres.

The length of A465 Saleyard Junction westbound exit taper from the A465 carriageway to a point 20 metres north of the Station Road Saleyard Junction for a total distance of 115 metres.

The length of A465 Saleyard Junction westbound entry taper from a point 20 metres north of the Station Road Saleyard Junction to the A465 carriageway for a total distance of 126 metres.

The length of A465 Gilwern Junction eastbound auxiliary diverge taper from the A465 carriageway to a point 21 metres south west of the Station Road Saleyard Junction for a total distance of 282 metres.

The length of A465 Gilwern Junction eastbound auxiliary merge taper from a point 21 metres south west of the Station Road Saleyard Junction to the A465 carriageway for a total distance of 157 metres.

The length of A465 Glanbaiden Junction eastbound exit slip road from the A465 carriageway to a point 63 metres west of Glanbaiden Roundabout for a total distance of 398 metres.

The length of A465 Glanbaiden Junction westbound entry slip road from a point 12 metres west of Glanbaiden Roundabout to the A465 carriageway for a total distance of 448 metres.